## AMGYLCHEDD GWAITH

### Prif ffocws

Gweithio mewn amgylchedd sy’n gymharol sefydlog ac sy’n cael ychydig o effaith ar ddeiliad y swydd neu’r ffordd y caiff y gwaith ei wneud.

### Ffocws eilaidd

Yn achlysurol bydd angen i ddeiliad y swydd ddeall sut y gall yr amgylchedd gwaith effeithio ar eu gwaith eu hunain a gwaith cydweithwyr gan weithredu o fewn canllawiau iechyd a diogelwch lle bo'n briodol i ymaddasu i'r amgylchedd.

## GOFAL BUGEILIOL A LLES

Yn achlysurol bydd angen i ddeiliad y swydd ddangos teimladrwydd tuag at rai sydd efallai angen help neu, mewn achosion eithriadol, sy'n amlwg wedi cynhyrfu; dylid gweithredu'n briodol drwy gynnwys y bobl berthnasol.

## DATBLYGU TÎM

***(dylid cynnwys hyfforddi rhai y tu allan i'r tîm gwaith o dan Cefnogaeth Addysgu a Dysgu)***

Yn achlysurol cynghori neu arwain gweithwyr newydd sy'n gweithio yn yr un swydd neu uned ar wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

## CEFNOGAETH ADDYSGU A DYSGU

Darparu gwybodaeth safonol neu gyflwyno addysgu neu hyfforddiant i gyflwyno myfyrwyr neu bobl eraill sy’n newydd i’r maes i wybodaeth neu weithdrefnau safonol.

## GWYBODAETH A PHROFIAD

Bod yn ymwybodol o egwyddorion ac arferion sylfaenol; bod â dealltwriaeth o’r systemau a’r gweithdrefnau sy’n effeithio’n uniongyrchol ar eu gwaith eu hunain, a chael eu goruchwylio neu weithio’n agos â chydweithwyr y gall ef/hi droi atynt am gymorth.